

Dewch â'n Hawliau Creadigol:

Maniffesto Diwylliannol a Rhyngwladol Pobl Anabl

Bring us our Creative Rights:

Disabled People's Cultural and International Manifesto

20  
21



A word cloud centered around the text "Disability Arts Cymru". The words are in various colors and sizes, representing different themes and languages. The central text is in large black font. Surrounding words include "visibility", "amrywiol", "innovative", "cysylltiadau", "theatre", "powerful", "perfformiad", "equality", "inspiring", "Disability", "Africa", "Cymru", "inclusive", "Celfyddydau", "Byddar", "performance", "connections", "culture", "cydraddoldeb", "gwelededd", "creative", "pwerus", "arloesol", "ysbrydoledig", "yn gynhwysol", "Deaf", "Arts", "diverse", "diwylliant", and "creadigol".

visibility amrywiol innovative cysylltiadau  
theatre powerful perfformiad equality inspiring  
Disability Africa Cymru inclusive Celfyddydau  
Anabledd Celfyddydau  
Byddar performance theatr Arts Cymru Creu Celf  
connections culture cydraddoldeb pwerus yn gynhwysol Deaf Arts  
gwelededd creative arloesol ysbydoledig diverse diwylliant creadigol



Cerflun gan / Sculpture by  
Catherine Taylor Parry

# Cyflwyniad

**Disability Arts Cymru yw'r mudiad cenedlaethol ar gyfer celfyddydau anabledd yng Nghymru.**

Mae'n cyfarwyddo cefnogaeth ar gyfer artistiaid datblygol a sefydledig sy'n anabl ac yn fyddar ar draws y genedl, gan hyrwyddo mynegiannau ac arferion o gelf trwy lens anabledd. Mae'n gweithio'n strategol i gefnogi darparwyr celfyddydol a diwylliannol Cymru gyfan i fod yn fwy cynhwysol, croesawgar a chadarnhaol i bobl anabl a Byddar.

Mae'r maniffesto wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gydag Anabledd Cymru yn dilyn eu Maniffesto, 'Dewch â'n Hawliau i Ni: Maniffesto Pobl Anabl', a lanswyd yn 2020 ac a oedd yn gofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r UNCRDP o fewn cyfraith Cymru. Mae'r maniffesto hwn yn amlygu pum Erthygl UNCRDP sy'n ymwneud â materion lle'r oedd aelodau Anabledd Cymru fwyaf tebygol o adrodd am ddiffyg gorfodi o'u hawliau.

# Introduction

**Disability Arts Cymru is the national organisation for disability arts across Wales.**

It directs support for emergent and established disabled and deaf artists throughout the nation, promoting arts expressions and practice through the lens of disability. It works strategically to support all Wales key arts and cultural providers to be more inclusive, welcoming and affirming for all disabled and deaf people.

This manifesto has been developed in collaboration with Disability Wales, following on from their Manifesto, 'Bring us our Rights: A disabled People's Manifesto' was launched in 2020 which sought a commitment from the Welsh Government to incorporate the UNCRDP into Welsh law. This manifesto highlights five UNCRDP Articles which relate to issues where DW members were most likely to report lack of enforcement of their rights.

Rhaid sôn ar yr adeg yma am effaith y pandemig ar gymdeithas dros yr 20 mis diwethaf. Mae ymgysylltiad celfyddydol a diwylliannol wedi ei effeithio mewn nifer o ffyrdd, ac mae'r effaith ar fywydau pobl anabl a Byddar wedi dangos anghydraddoldebau cynhenid. Cyhoeddwyd adroddiad [Drws ar Glo](#) ym mis Gorffennaf 2021, a'i gyd-gynhyrchu gan y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd gan Lywodraeth Cymru a ddangosodd bod 68% o farwolaethau covid yng Nghymru yn bobl anabl. Ynghyd ag effaith y niwed posibl sy'n cael ei achosi gan faterion amgylcheddol byd-eang a'r adnabyddiaeth [eco-ableism](#), ar fywydau pobl anabl, mae hyn yn datgelu bod bywydau yn parhau i gael eu diystyru neu eu hanwybyddu pan ddaw'n fater o bolisi ac ymgysylltiad cyhoeddus.

Rydym felly'n croesawu'r cyfle yma i ddatblygu'r Maniffesto yma ac yn awyddus i weld sut gall ei argymhellion gael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu ym mywyd Cymru ar bob lefel o gymdeithas. Trwy ymgysylltu â phobl anabl, byddar a niwro-amrywiol ledled Cymru dros gyfnod o 28 diwrnod, gyda 5 grŵp ffocws, arolwg ar-lein, gyda 74 o ymatebion a gwahoddiad i ymateb trwy e-bost gan bobl nad oeddynt yn gallu mynychu, rydym wedi datblygu 'Dewch â'n Hawliau Creadigol' gyda'r bwriad o gytuno ar gyfres o gamau. Yn gyfan gwbl, cymerodd 128 o bobl ran gyda dros 350 o gyfraniadau gwahanol gan bobl anabl/Byddar neu niwroamrywiol yng Nghymru.

Mention must be made at this point about the impact of the pandemic across society over the past 20 months. Arts and cultural engagement has been impacted in many ways, and the result on the lives of disabled and Deaf people has exposed innate inequalities. Published in July 2021, [Locked Out](#) was co-produced by the Disability Equality Forum by the Welsh Government and showed that disabled people account for 68% of all covid deaths within Wales. Together with the impact of the potential damage being caused by global environmental issues and the identification of [eco-ableism](#), on the lives of disabled people, reveals that the lives of disabled people continue to be disregarded or ignored when it comes to public policy and engagement.

We therefore welcome this opportunity to develop this Manifesto and eager to see how its recommendations can be endorsed and adopted into Welsh life at every level of society. By engaging with disabled, deaf and neuro-divergent people from across Wales over a period of 28 days, 5 focus groups were held, an on-line survey disseminated, receiving 74 responses from self-disclosing disabled and deaf people across the nation and email responses were invited from people unable to attend the focus groups. In total, 128 individuals were involved with over 350 distinct contributions made from disabled/deaf or neuro-divergent people based throughout Wales.

.....

“Y rhwystrau hynny sydd gennym ar y cyd y mae angen i ni fynd i’r afael â nhw, ynte? Y ddealltwriaeth ein bod ni i gyd yn wahanol, ond bod gennym y mathau yma o rwystrau ar y cyd yn yr hanes diwylliannol.”

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP) yn gosod hawliau pobl anabl gerbron trwy ddarparu fframwaith ar gyfer gweithredu ar sut all yr hawliau yma gael eu diogelu a’u gweithredu. Bwriad y Confensiwn yw bod yn declyn gwneud polisi gyda “dimensiwn datblygiad cymdeithasol pendant”. Mae’r gwaith yma’n cael ei adeiladu trwy gynnwys yn benodol Erthyglau 30 a 32 UNCRDP.

Mae [Erthygl 30](#) yn dweud “Bydd partion yn cymryd camau priodol i alluogi pobl anabl i gael y cyfle i ddatblygu a defnyddio’u potensial creadigol, artistig a deallusol, nid yn unig er ei bydd eu hunain, ond hefyd er mwyn **cyfoethogi cymdeithas**”

Mae [Erthygl 32](#) yn dweud “Mae partion yn cydnabod pwysigrwydd **cydweithrediad rhyngwladol a hybu hynny**, er mwyn cefnogi ymdrechion cenedlaethol ar gyfer gwireddu pwrpas ac amcanion y Confensiwn presennol.”

.....

“It’s those shared barriers that we need to address in a manifesto isn’t it? The understanding that we’re all different but that we have these kinds of shared blocks, if you like, in the cultural narrative.”

The United Nations Convention on the Rights of Disabled People (UNCRDP) sets out the rights of disabled people by providing a framework for action on how these rights can be protected and enforced. The Convention is designed to serve as a policy making tool with an “explicit, social development dimension”. This work is being built by incorporate specifically Articles 30 and 32 of the UNCRDP.

[Article 30](#) states “Parties shall take appropriate measures to enable disabled people to have the opportunity to develop and utilize their creative, artistic and intellectual potential, not only for their own benefit, but also for the **enrichment of society**.”

[Article 32](#) states “Parties recognise the importance of **international cooperation and its promotion**, in support of national efforts for the realization of the purpose and objectives of the present Convention.”

# Araith Cyweirnod

**Kaite O'Reilly, Dramodydd Arobryn Rhyngwladol yng Nghymru, Arbenigwraig Drama ac Areithydd Cyweirnod Lansiad y Maniffesto**

Mae creadigrwydd a hunanfynegiant yn hawl dynol sylfaenol. Mae adlewyrchu gwir amrywiaeth Cymru, dathlu hynny gartref a dod â hynny i'r byd trwy gydweithrediad rhyngwladol yn hanfodol i ddyfodol ein cymdeithas a diwylliant a lles pawb.

Nid yw'r hyn sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl na'r potensial am arloesi a gwelediad newydd a ysbrydolir gan brofiad.

Mae'r gymuned anabl yn fywiog, yn amrywiol, yn croestorri ac yn arloesol, ond rydym yn dal i gael ein diystyru, heb ein datblygu, yn cael ein tanariannu a'n dibrisio. Mae ein diwylliant a'n cyfraniad yn anghyfarwydd i nifer oherwydd effaith hanesyddol gwahanu, sefydliadeiddio, ac ablaeth systemig. Rydym wedi cael ein gweld yn aml fel pobl 'llai'. Mae isadeiledd ac aradeiledd ein cymdeithas wedi ei greu er mwyn ein cau ni allan: mae e wedi'i rigio i ffafrio buddion y breintiedig. Mae'r strwythurau bellach yn y broses o gael eu dymchwel, mae amrywiaeth a chynhwysiant yn

# Keynote Address

**Kaite O'Reilly, International Wales Based Award-winning Playwright, Dramaturg and Maniffesto launch Keynote Presenter**

Creativity and self-expression is a fundamental human right. Reflecting the true diversity of Wales, celebrating that at home and bringing it out into the world through international collaboration is crucial to the future of our society and culture and the well-being of everyone.

What is presented currently does not reflect the multiplicity of our nation nor the potential for innovation and fresh perspectives informed by lived experience.

The disability community is dynamic, diverse, intersectional, creative and innovative, but we are still overlooked, under-developed, under-funded and under-valued. Our culture and contribution is unfamiliar to many owing to the historical impact of segregation, institutionalisation, and systemic ableism. We have often been perceived incorrectly as 'less'. The infrastructure and superstructure of our society has been constructed to exclude us: it is rigged to favour the interests of the privileged. These structures are now in the process of being dismantled, diversity and inclusion

eiriau allweddol, ond nid oedd y newidiadau yma'n 'rhodd'. Digwyddodd y camau yma ymlaen yn bennaf oherwydd gweithgaredd gwleidyddol, ymgyrchu ac actifiaeth sydd wedi'n gwneud ni'n weladwy, ac ar ôl brwydr, wedi rhoi i ni – ar bapur o leiaf – ein hawliau dynol, yn gyfartal ag eraill. Rwy'n dweud 'ar bapur o leiaf' oherwydd mae yna gloerdyllau sy'n tanseilio deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu a hawliau mynediad cyhoeddus: Dyw "addasiadau rhesymol" ddim yn mynd yn ddigon pell; dyw ein cydnabod ni ddim yn mynd yn ddigon pell.

Mae angen cynghreiriad i ymladd gyda ni, nid yn eiriolwyr yn siarad ar ein rhan. Mae angen arnom ni i lywodraeth Cymru a phob sefydliad cyhoeddus ddangos nid yn unig eu hawydd, ond hefyd eu parodrwydd i newid, trwy WEITHREDOEDD, nid GEIRIAU'N UNIG, i ymrwymo at arfer cynhwysol sydd yn ein Maniffesto ac sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi. Ar gyfer arferion nad sydd yn eithrio ond sy'n galluogi, ac sy'n diffinio 'cyfranogiad' pobl anabl a byddar mewn diwylliant, nid dim ond defnyddwyr ond fel pobl greadigol yn gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Beth ym ni?**

**Creadigol, dyfeisgar, gwydn, gwleidyddol.**

Rydym yn artistiaid a gwyddonwyr, yn rhieni, yn frodyr a

are buzz words, but these changes were not 'given'. These advances primarily happened because of political activity, campaigning and activism which rendered us visible, and after a struggle granted us – on paper at least – our human rights, equal to others. I write 'on paper at least' because even now there are loopholes which undermine anti-discrimination legislation and the rights of public access: "reasonable adjustments" does not go far enough; recognising us does not go far enough.

We need allies fighting with us, not advocates speaking FOR us. We need the Welsh government and all public organisations to show not just their desire, but their willingness for change, through DEEDS, not just WORDS, to commit to inclusive practice outlined in our Manifesto which reflects the society we live in. For practice that doesn't exclude but enables, and which defines disabled and deaf people's 'participation' in culture not just as consumers but as creatives working nationally and internationally.

**What are we?**

**Creative, inventive, resilient, political.**

We are artists and scientists, parents and siblings, lovers, friends, co-conspirators and challengers. We confront the soft and hard ableism in our society which is invisible to so

chwiorydd, yn gariadon, yn gyfeillion, yn gyd-gynllwynwyr ac yn herwyr. Rydym yn wynebu'r ablaeth meddal a chaled yn ein cymdeithas sy'n anweladwy i gymaint o bobl heb brofiad ein bywydau. Rydym yn ceisio cyfiawnder cymdeithasol ac yn ymladd rhagfarn yn ddyddiol. Rydym yn rebeliaid ac yn ddiwygwyr, protestwyr ac yn bobl datrys problemau. Ni yw eich chwaer, eich cymar, eich plentyn a'ch cydweithiwr. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni. Gyda'n gilydd, ni yw'r dyfodol.

many without our lived experience. We seek social justice and fight prejudice on a daily basis. We are rebels and reformists, protestors and problem solvers. We are your sister, your partner, your child, your work colleague. We invite you to join us. Together, we are the future.



Arddangosfa Wobr Celf DAC 2020  
/ DAC Arts Prize exhibition 2020



# Dull ar Sail Hawliau

**Mae'r ewyllys i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleoedd ar gael i bob cymuned yn egwyddor ac yn awydd yn yr asiantaethau statudol ledled Cymru.**

Dangoswyd hyn trwy waith diweddar Cyngor y Celfyddydau a'r Amgueddfa Genedlaethol i edrych ar sut mae cymunedau lleiafrifol ledled Cymru yn ymgysylltu â'r sector celfyddydau a diwylliannol, gan arwain at Adroddiad Ehangu Ymysylltiad.

Gellir mabwysiadu y gwaith penodol yma sy'n edrych ar ddull ar sail hawliau a'i drosglwyddo i arfer, gweithredoedd a mesurau cynaliadwy ar gyfer pobl anabl o ran mynediad at gynnig diwylliannol y genedl a sut all cysylltiadau gael eu gwneud yn rhyngwladol.

Dangosodd ymestyniad demograffaid yr arolwg ymgysylltiad ledled Cymru: Roedd 100% o gyfranogwyr yn diffinio'u hunain yn anabl/byddar neu'n niwro-amrywiol, neu ar y sbectrwm awtistaidd; roedd 79% yn yr ystod oedran 35 – 64 oed, gydag 8% o dan 34 a 12% dros 65 oed; roedd 62% yn fenywod, gyda 9% â gwell ganddyn nhw beidio â dweud ac roedd ymgysylltiad cytbwys ar draws y wlad. Roedd y rhan fwyaf yn dweud eu bod yn Wyn, gyda 5% ddim yn datgelu.

# A Rights-based Approach

**The will to ensure services and opportunities are available for all communities is a driving principle and desire within the statutory agencies across Wales.**

This has been demonstrated through the recent, Arts Council of Wales and The National Museum of Wales work to examine how minoritised communities from across Wales engage with the arts and cultural sector, resulting in its Widening Engagement report.

This specific work to explore how a rights-based approach can be adopted and transferred into practice, actions and sustainable measures for disabled people in terms of access to the nations cultural offer and also in how connections can be made internationally.

The demographic reach of the survey showed engagement from across Wales: 100% of all participants defined themselves disabled/deaf, or neuro-divergent, or on the autism spectrum; 79% were in the age range of 35 – 64, with 8% under 34 and 12% over 65; 62% were female, with 9% preferring not to say' and level engagement was evidenced across the country. Most respondents identified as White, with 5% non-disclosing.

Nodwyd Ymgysylltiad Diwylliannol bod 70% o'r ymatebwyr yn gweithio'n llawn amser yn sector y celfyddydau neu fel ymarferwyr creadigol, gyda'r gweddill yn mynychu digwyddiadau diwylliannol.

Mynychwyd pob grŵp ffocws gan bobl anabl, a / neu byddar, er eu bod yn agored i bawb.

Cyflenwyd sesiynau'r grwpiau ffocws phedwar grŵp nam cymysg ac un byddar, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Fe wnaethon nhw ddatgelu sinigiaeth a phryderon, yn amrywio o beidio â gweld unrhyw newid pan fo gwaith fel hyn yn cael ei wneud, a pheidio â theimlo'n obeithiol gyda newidiadau polisi, yn cael eu gweld fel,

***'methiant i newid i fod yn weithredoedd ystyrlon neu gadarnhaol',***

at fod pobl yn teimlo'u bod yn cael eu hanwybyddu pan fyddan nhw'n holi'n uniongyrchol i gysylltu neu'n mynegi pryderon. Dywedwyd wrth eraill nad oedd modd diwallu eu hanghenion, a dywedwyd yn aml wrth rai pobl fyddar na fyddai cyfieithwyr yn cael eu darparu ar gyfer sioeau neu weithgareddau un tro:

Cultural Engagement specified that the survey had respondents of whom 70% worked full time in the arts sector or as creative practitioners, with the remainder attending cultural events.

All focus groups were attended by disabled, and /or deaf people, though it was open to anyone to attend.

The focus group sessions were delivered with four mixed impairment groups and one deaf, British Sign Language users. They exposed cynicism and concerns, ranging from not seeing any change when work such as this is done, and not feeling hopeful with policy changes, being evidenced as,

***'failing to translate into meaningful or positive actions',***

through to people feeling ignored when making direct approaches to connect or raise concerns. Others were told their needs cannot be met, and a few deaf people were often informed interpreters would not be provided for one-off shows or participation activities:

.....  
**"It's not about segregating us and going 'oh, we ticked our box': there is us, the disabled and there is the "normal", but we're all one, we're all people."**

.....  
“Dyw e ddim yn golygu ein gwahanu ni rhag eraill a dweud ‘rydyn ni wedi ticio blwch’: dyma ni, yr anabl ac yna’r “normal”, ond rydym ni’n un, rydym ni’n bobl bob un.”

Mae’r gwaith yn dangos yn eglur bod yna dipyn i’w gwneud i ennill ymddiriedaeth, gydag angen deilliannau gwirioneddol i greu camau tymor hir a gwasanaethau i bobl anabl. Mae yna angen i barhau i wrando ar ac ymateb i bobl anabl gan sicrhau bod eu hawliau yn parhau i fod yn amlwg mewn cynlluniau, cyfleoedd a digwyddiadau a fydd yn creu cysondeb yn sector diwylliannol Cymru. Dylai hyn fod ar bob lefel mewn cymdeithas, gan gysylltu ochr yn ochr â dinasyddion eraill fel y gall pobl anabl gael cyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol trwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Gymreig a’i gyflwyno mewn polisi, gweithredoedd ac arferion.

The work clearly shows there is still much to do in earning trust, with tangible outcomes required to build long term actions and services for disabled people. There is a need to continue to listen and respond to disabled people ensuring their rights remain in the forefront of plans, opportunities and events which will create a consistency within Wales cultural sector. This should be at every level within society, connecting alongside other citizens so that disabled people can access local, national and international opportunities by incorporating the United Nations Convention on the Rights of Disabled People into Welsh law and applying it in policy, actions and practice.

*“Rhwydweithiau ar gyfer pobl anabl yn gyffredinol ac anabledau penodol”*

*“More disabled people in productions”*

*“Mwy o bobl anabl mewn cynhyrchiadau”*

*“Networks for disabled people in general and specific disabilities”*

## **Yn y maniffesto yma mae Disability Arts Cymru yn ymrwmo i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r cyrff y mae'n ariannu i:**

- Ddangos arfer gorau fel cyflogwr pobl anabl
- Gwneud Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd yn orfodol ar bob lefel o Lywodraeth a chyrff cyhoeddus
- Sicrhau bod y cytundeb economaidd gyda chyflogwyr a busnesau yng Nghymru'n cynnwys mesurau y mae modd eu gorfodi i daclo'r bwlch cyflogaeth
- Amddiffyn hawliau pobl anabl yn y gweithle trwy sicrhau mynediad i wasanaethau cyngor gwahaniaethu
- Cyd-gynhyrchu gyda phobl anabl â'u sefydliadau a chreu meincnodau i ddangos arfer da i gyflogwyr.

## **In this manifesto Disability Arts Cymru commits to supporting Welsh Government and it's funded bodies to:**

- Provide a beacon of best practice as an employer of disabled people
- Make Disability Equality Training mandatory at all levels of Government and public bodies
- Ensure the economic contract with employers and business in Wales incorporates enforceable measures to tackle the disability employment gap
- Protect the rights of disabled people in the workplace through ensuring access to discrimination advice services
- Co-produce with disabled people and their organisations and create benchmarks to demonstrate good practice for employers.



Mae nifer o bobl sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith presennol yma wedi dweud wrthym ni eu bod yn pryderu bod materion sy'n effeithio arnyn nhw yn cael eu diystyru, eu hanwybyddu neu ddim yn cael eu gweld fel rhywbeth pwysig. Mae'r canolbwyntio yma ar fynediad at y sector celfyddydau a chreadigol yn dangos bod nifer o bobl anabl sydd am ddatblygu gyrfaedd yn y sector yn wynebu rhwystrau niferus sy'n rhwystro datblygiad gyrfaol: diffyg cyfleoedd o fewn addysg; diffyg dealltwriaeth o anghenion mynediad; portholau ariannu anghyraeddadwy; diffyg dealltwriaeth o brofiad bywyd anabl neu wrthod cyson i newid diwylliannau sy'n eu heithrio'n uniongyrchol. Mae'n dangos hefyd fod nifer o bobl anabl sydd am gymryd rhan yn y celfyddydau yn canfod nad yw'r ddarpariaeth wedi'i safoni, gan ei fod yn 'ad hoc' neu'n docenistaidd, yn ogystal â diffyg gwybodaeth i helpu i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn ag os a phryd y gallan nhw gymryd rhan yn y gweithgaredd sydd ar gael.

.....

**“Rydym am gael ein cynnwys oherwydd ein hawl yw cael ein cynnwys.”**

Rydym yn gwybod bod sefydliadau a gwasanaethau'n anelu at weithio'n fwy cadarnhaol, ond yn aml mae'r ablaeth sydd yn y system yn golygu diffyg gweithredoedd, a allai wneud y gwahaniaeth. Mae'r effeithiau'n niferus: diffyg dealltwriaeth;

Many disabled people who have participated in this current work have told us that they are concerned that issues that impact them are disregarded, ignored or not seen as wholly important. This focus on access to the arts and creative sector, demonstrates that many disabled people wishing to develop careers in the sector are faced with multiple barriers that impede career progression: lack of opportunities within education; lack of understanding of access needs; inaccessible funding portals; lack of understanding of the lived experience of disability or in a constant refusal to change cultures that directly exclude them. It also shows that many disabled people who wish to participate in the arts find provision is not standardized, as it is 'ad hoc' or tokenistic, as well as a lack of information to help make informed choices as to if, and when they can participate in the activity on offer.

.....

**“We just want to be included because it's our right to be included.”**

We know organisations and services overall aspire to work more positively, but often the prevailing systemic ableism means an absence of actions, which could make the difference. The impacts are multiple: lack of understanding; identification of what can be done or training; outdated policies; a 'make-do' culture; failure to ask people with

nodi'r hyn y gellir ei wneud neu hyfforddiant; polisiau hen ffasiwn, diwylliant 'dyna ddigon'; methiant i ofyn i bobl gyda 'phrofiad bywyd' a chyfiawnhad amddiffynnol. Mae hyn yn cyfuno gydag effeithiau negyddol parhaus, yn effeithio ar ymgysylltiad gan bobl o bob oed a phob cymuned yn y sector creadigol sy'n methu'n gyson â deall yr eithrio y gallan nhw greu yn anuniongyrchol sy'n atal man cychwyn cyfartal.

.....  
"Rydym yn delio â hunanwerth isel, diffyg hyder, teimlo'n anweladwy a chael anhawster mawr cael y gefnogaeth i fod yn weladwy."

Mae Disability Arts Cymru yn galw ar bleidiau gwleidyddol Cymru i gyflwyno cyfraith Gymreig a fydd yn sicrhau bod ei sefydliadau celf a chreadigol, y sector ffilm a theledu, amgueddfeydd ac orielau, y rheiny sy'n ariannu celf a diwylliant, a chyrrff statudol a phreifat yn ymrwymo i ymgorffori hawliau'r UNCRDP. Yn y ffordd yma, gallwn gefnogi pob corff, o'r lefel leol at y genedlaethol i ymrwymo i gyflwyno camau allweddol ar draws eu darpariaeth i gefnogi pobl anabl i gael rôl lawnach ym mywyd diwylliannol ehangach y genedl.

Mae dull 'hawliau' yr UNCRDP yn sicrhau bod pob dinesydd yn ennill cyfleoedd dewis, a chyfle i ddatblygu oddi mewn i weithgareddau cymdeithas, gan ennill nodau bywyd uchelgeisiol, datblygu eu talentau cynhenid a'u dyheadau

the 'lived experience' and defensive justifications. This combines with on-going negative impacts, affecting engagement from all ages and communities within the creative sector which consistently fails to understand the exclusion they may indirectly create that prevents an equal starting place.

.....  
"We're dealing with low self-worth, lack of confidence, feeling invisible and having huge difficulty getting the support to become visible."

Disability Arts Cymru is calling on Wales's political parties, to introduce Welsh law that will ensure its arts and creative organisations, film & TV sector, museums and galleries, arts and culture funders, and statutory and private bodies to commit to incorporating the rights within UNCRDP. This way, we can support all bodies, from local to national level commit to implementing key actions throughout their provision to support disabled people to have an equal and fuller role in the wider cultural life of the nation.

The UNCRDP's 'rights' approach ensures all citizens may gain choices, and access to develop within all society's activities, thus gaining aspirational life goals, developing their innate talents and desires and to witness themselves as represented and reflected within their nations cultural life. To explore this notion of 'rights', this work asked two

ac i weld eu hunain yn cael eu cynrychioli a'u gweld ym mywyd diwylliannol y genedl. I edrych ar y syniad yma o 'hawliau', gofynnodd y gwaith yma ddau gwestiwn ynglŷn â pha mor effeithiol roedd y rheiny a atebodd yn teimlo bod hawliau pobl anabl yn cael eu cynnal.

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf; ydych chi'n teimlo'n obeithiol y bydd gwelliant o ran hawliau pobl anabl yn y pum mlynedd nesaf? Roedd 36% yn teimlo'n eithaf gobeithiol, gyda 64% rhwng ansicr a 'ddim o gwbl'. Er bod hyn yn gam ymlaen, mae'n dangos fod dau o bob tri yn bryderus:

.....  
"Gobeithiol i ryw raddau: yn falch bod Llywodraeth Cymru'n fwy agored i newid o leiaf nag y mae wedi bod yn y gorffennol. Oherwydd dyna mae datblygiad y maniffesto yma'n dangos."

"Mae'n anodd bod yn obeithiol pan fo'r dystiolaeth i gyd yn pwyntio at newidiadau polisi yn methu â throï'n weithgaredd ystyrlon neu gadarnhaol."

Roedd yr ail gwestiwn yn gofyn; ydych chi'n teimlo bod eich hawliau wedi cael eu sicrhau'n effeithiol? Roedd 22% yn teimlo eu bod, 31% 'rhywfaint', a 47% yn dweud 'ansicr' neu 'ddim o gwbl'. Mae'n ganlyniad calonogol, ond mae'n dal i ddangos rhai pryderon, er ei fod yn dangos bod pobl anabl yn fwy ymwybodol o'u 'hawliau'.

questions on how effectively the respondents felt that disabled people rights are upheld.

